# Cynghanedd, Amser a Pherson yng Nghywyddau Brud Dafydd Gorlech

*Aled Llion Jones*

Dadl ddiddorol yn athroniaeth iaith yw honno a welir yn y pegyniad rhwng agweddau Heidegger ar yr naill law, a beirniaid megis Paul de Man a Maurice Blanchot ar y llall. ‘Die Sprache spricht’, yw un o ddatganiadau enwocaf yr Heidegger hwyr (1959), sydd yn crisialu nifer o dueddiadau gwrth-ddyneiddiol. Iaith ei hun sydd yn siarad, ac mae’r byd ffenomenolegol a dirfodol – a’r goddrych dynol ei hun – yn deillio o’r iaith honno. Myn Paul de Man mai cywirach fyddai ychwanegu at y ferf *sprechen* y rhagddodiad negyddol *ver-* hwnnw a hoffai Heidegger gymaint, gan ddweud ‘die Sprache verspricht (sich)’: gwir ydyw nad dyn sydd yn rheoli iaith, ond, eto i gyd, ni ellir ychwaith ymddiried mewn iaith i ddarparu’r byd yn llawn inni (gw. de Man 1979, 277; Derrida 1987). Mae iaith – ac iaith lenyddol yn enwedig – yn nacáu ein hymdrechion i ganfod ystyr a chyfeiriadaeth sicr, sylfaenol.

Nid oes odid addewid pwysicach nag eiddo’r proffwyd, ac yn yr erthygl hon rwyf am ystyried gwaith Dafydd Gorlech, y brudiwr o’r bymthegfed ganrif. Saith o’i gerddi sydd wedi goroesi, ac fe’u golygwyd yn *Gwaith Dafydd Gorlech* yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr gan Erwain Rheinallt (Rheinallt 1997). Rwyf am edrych ar y cerddi hyn er mwyn trafod elfen strwythurol a welir yn y defnydd o’r gynghanedd: cyflwyno tystiolaeth am y strwythur hon fydd y brif orchwyl, a chyfeirir yn frysiog iawn at rai syniadau mwy damcaniaethol ynghylch trosiadau barddonol o amser a pherson sydd yn berthnasol i’r cwestiwn uchod ynghylch iaith. Ni chaf gyfle i ymwneud yn fanwl â chynnwys y cerddi hyn, ac yn sicr nid oes gennyf fawr ddim i’w ddweud am eu cyd-destun hanesyddol; dilynaf yn hyn o dasg y prif egwyddorion methodolegol a fabwysiadwyd gennyf yn Jones 2013. Mae’r cwestiynau a ofynnir yn y gwaith hwnnw ynghylch amser, hanesyddiaeth, llais ac awdurdod yn fframio ac yn sbarduno’r prosiect mwy y mae hyn o erthygl yn perthyn iddo. Gyda lwc, daw cyfle maes o law i fynd i’r afael yn llawnach â goblygiadau damcaniaethol yr egwyddorion empeiraidd a ddangosir yn yr ysgrif fer hon.

Cafwyd sawl astudiaeth ar gerdd dafod sy’n rhagweld fy nodiadau innau, ac enwaf rai yn unig mewn olyniaeth bwysig. Gweler, e.e., J. Glyn Davies (1911) a Bobi Jones (1993, yn ogystal â’i brosiect ehangach) am

ystyriaethau strwythurol a semiotig, ac ynghylch llais, traddodiad ac awduraeth gw. Jerry Hunter (1995, 2001), Helen Fulton (1996) a Peredur Lynch (2003). Heuwyd hedyn y gwaith presennol rai blynyddoedd yn ôl, mewn sgyrsiau gyda'r Athro Patrick K. Ford yn ystod ac yn dilyn seminarau yn Adran Geltaidd Prifysgol Harvard. Oherwydd prinder lle, maddeuir imi, gobeithio, am adael gwaith y beirniaid hyn – ac eraill – yn y cefndir (gan gyfeirio at rai ohonynt yn y llyfryddiaeth yn unig, os hynny): cydnabyddaf fy nyled iddynt a diolch, gan ymddiheuro am beidio â chydnabod dyledion eraill.

O safbwynt canrannau'r gwahanol fathau o gynghanedd a welir ynddynt, mae cerddi 6 a 7 yn *Gwaith Dafydd Gorlech* yn wahanol iawn i'r lleill. Gan symleiddio rywfaint drwy, e.e., anwybyddu llinellau di-gynghanedd, gwelir bod testunau golygedig cerddi 1-5 yn cynnwys canrannau uchel o'r gynghanedd gytsain (81, 64, 74, 86, 75), canran isel o'r gynghanedd sain (6, 13, 7, 3, 17) a chanran weddol uchel o'r gynghanedd lusg (13, 18, 16, 11, 8). Y canrannau ar gyfer cerddi 6 a 7 yw cytsain (57, 41); sain (42, 46); llusg (1, 8). (Nid oes cyfanswm o 100 yn achos yr holl gerddi oherwydd hepgor llinellau digynghanedd.) Bwriad yr erthygl hon yw craffu ar sut y defnyddir y cynganeddion, nid ar gyfer eu swyn gerddorol a chynodiadau barddonol, ond yn hytrach fel nodau rhythmig ac arwyddion strwythurol. Caiff y gynghanedd ei defnyddio'n debyg i'r ffordd y byddai beirdd yr awdl yn defnyddio odl a mydr i ddynodi adrannau cerddi a chaniadau, adnoddau nad ydynt ar gael i'r cywyddwr (gw. Jones 1993). Gwelir bod y gwahaniaeth rhwng canrannau'r cynganeddion yn cyfateb i wahaniaeth pwysig yn y defnydd ohonynt.

Cerdd 1. Gwelir ar unwaith fod yr enghreifftiau o gynghanedd sain a llusg wedi eu dosbarthu yn weddol gyson drwy'r cywydd (yn llinellau 3, 11, 21, <u>31, 33, 35-7</u>, 41, 45, <u>61, 63</u>, 69, <u>81, 83</u>, 89 [tanlinellir eitemau cyfagos]). Y prif eithriadau yw'r clwstwr yn llinellau 31–38, a'r absenoldeb o gwmpas llinell 51: beth sydd i gyfrif am hyn?

Rwyf am gynnig bod pob enghraifft o'r gynghanedd lusg – neu bob clwstwr ohoni – yn dynodi diwedd adran yn y gerdd. Gwelwn felly fod y gerdd yn arddangos cryn gymesuredd. Mae darn rhagarweiniol o ddau gwpled, ac yna ddwy adran o naw ac wyth. Yna, ar ôl dwy adran o ddau gwpled ceir dwy adran o naw cwpled, ac adran o bedwar i gloi. Hynny yw, strwythur y gerdd yn ôl nifer y cwpledi yw 2, 9, 8, 2, 2, 9, 9, 2, ac mae'n bosibl gweld yma ddau hanner cymesur: 2, 9, 8, 2 / 2, 9, 9, 2. Ategir yr egwyddor hon o ddynodi toriadau adrannol gan y cyd-ddigwyddiad diddorol bod yr unig enghreifftiau o'r groes o gyswllt yn digwydd ar ddechrau adrannau (llau 39, 47, 48).

Mae'n bosibl darllen yr adrannau hyn nid yn unig fel cyd-ddigwyddiadau mydryddol, ond hefyd fel unedau synhwyrol. Gwelir bod y

ddwy linell gyntaf – 'Deallwn nad a wellwell/ Swyddau ieirll, hau y sydd well' (1,2) – yn ffurfio cyflwyniad yn y person cyntaf lluosog: yma fe gyflwynir y gerdd gan ddefnyddio motiff dechreuol yr hau, sef metaffor ar gyfer paratoi. Dyma baratoi ar yr wyneb testunol ar gyfer gweithred y gerdd a'r perfformiad ohoni; mae'n gweithio yn ogystal fel rhan o *nexus* ddelweddol y gerdd, gan gyhoeddi'r paratoi ar gyfer y gweithredoedd milwrol disgwyliedig. Mae'r ail gwpled yn odli berfau yn y person cyntaf unigol – 'tawed glaw tra y tawyf,/ tawed gwynt, tawedog wyf!' (3,4). Adleisir, o safbwynt hyder a grym, linell enwog Gruffudd ab yr Ynad Coch 'poni welwch chwi hynt y gwynt a'r glaw' (neu, o leiaf, adleisir yr un ddisgwrs): mae cwyn apocalyptaidd diwedd annibyniaeth a cholli sofraniaeth yn cael ei gwrthdroi mewn cerdd sydd yn darogan dychwelyd o'r rhain.

Wele'r gerdd yn symud i ddull y brud. Caiff y broffwydoliaeth ei rhannu'n is-adrannau gan gwpled ac iddo gynghanedd sain ddechreuol, sy'n troi i'r trydydd person lluosog – 'Nadredd yn niwedd y nant/ Uwch ei ben a chwibanant' (11, 12). Cyflwynir yr is-adran nesaf â delwedd y forwyn sy'n crïo yn: 'E wna morwyn, em arab,/ Wylo'r Mai o alar mab' (13, 14). Mae'r adran yn cysylltu'n ddelweddol y cariad marw â chnydau Lloegr a ddifethir gan yr adar, ac fel mae'r golygydd yn ei nodi (Rheinallt 1997), daw'r holl ddelweddau yn yr adran hon, o linell 11 hyd 22, o adrannau cyfagos *Brut Dingestow.*

Mae'r adran nesaf yn dechrau drwy gyflwyno'r unig enghreifftiau sydd yn y gerdd o'r ail berson unigol: 'Y gaer fawr gau ar fore,/ Daear a'th lwnc, dŵr i'th le!' (23, 24). Mae dau hanner amlwg i'r adran hon, fel y bu i'r un flaenorol: ceir yn yr hanner cyntaf gwpledi sydd yn darogan drwy gyfrwng priflythrennau Sibylaidd: 'Gwedir' H y gedir I/ Gŵr y god, ac R gwedi' (25, 26). Gweler y nodiadau i'r golygiad (Rheinallt 1997) am esboniad o'r modd y mae'r llythrennau hyn yn cyfeirio at Harri VI, Edward IV a Rhisiart III. Symudir yn yr ail hanner i ffocysu ar fotiff y glaw a ddaw i ddifa'r Saeson, a chloir yr adran fan hyn â storm o gynghanedd lusg a nifer o elfennau sydd yn adleisio'r dechreuad. Troir yn ôl i'r person cyntaf lluosog – 'Cyrchwn gellïau ceuon/ [...] Gwnawn gyngor y fôr-forwyn' (33, 35) – yn rhan o gyfres o wyth llinell sy'n disgrifio gweithredoedd y Cymry yn ystod y gawod ddifäol: mae ym mhob un o'r cwpledi hyn gynghanedd lusg neu seinlusg (clywir sain a llusg ill dwy yn y llinell 'Gwnawn gyngor y fôr-forwyn': mae'r cwpled hwn yn unigryw yn y gerdd, heb fod ynddo unrhyw gynghanedd gytsain). Sylwer nas cafwyd enghraifft o'r person cyntaf lluosog ers y gair cyntaf oll, 'Deallwn'.

Yn awr, dychwelir at y llais metafarddonol, a'r persona'n cynnig sylwebaeth ar ei ddarogan: datgan mai 'Da fwriad yw fy arwydd' (39) cyn atseinio'n echblyg fotiff agoriadol yr hau: 'Hau a welaf Fathrafal,/ Heuwn

ar faes hwy no'r Fâl' (41, 42). Defnyddir y personau cyntaf unigol a lluosog a welwyd yn yr adran gyntaf, a dyma ddefnyddio person y ferf, felly, i ategu'r cyrchu.

A dechrau brysio ychydig, nodaf yn unig fod yr adran nesaf (47–64), sy'n datblygu'r metaffor o erchi ych ar gyfer yr hau (gan greu felly gywydd brud gofyn) yn cloi â dau gwpled sy'n defnyddio'r gynghanedd lusg: 'Ych heb adu cau'r buarth,/ Elain â gwisg lin neu garth./ Ond cyfarch Tomas rasol/ Dafi, ni ad fy iau'n ôl!' (61–4). Mae'r adran nesaf, wrth ddatblygu'r metafforau daroganol-escatolegol i gyfeiriadau crefyddol echblyg, yn cloi eto â chwpled ac ynddo gynghanedd lusg: 'Ych a welais, iach olud,/ Asen gref Iesu'n ei grud,/ Asen fu yn y cenol,/ Asen hwyr y sy'n eu hôl' (79–82). Yn yr adran hon hefyd, diddorol gofyn a oes arwyddocâd i'r llinell unigol o gynghanedd sain, 'Ysgafn fydd coedydd y Cân' (69), sef trosiad ar gyfer milwyr ('coedydd') Ghengis Khan. Yr awgrym amlwg yw bod y gynghanedd sain yn dynodi ffin rhwng is-adrannau, ac yn wir, mae'r cwpled nesaf yn troi, o'r mawl yn y trydydd person unigol, i'r person cyntaf unigol: 'Ni wn help yn iawn i hau/ Eithr enwi f'ewythr innau' (71–2). Mae'r metafforau yma'n egluro wrth iddynt gyfuno: deellir 'coedydd y Cân' o'r isadran flaenorol yn llawn bellach fel metaffor, a rhydd hyn nod amlwg i drosiad yr hau. Yn yr un modd mae gormodiaith bensaernïol yr adran flaenorol yn dod yn rhan o blethwaith metafforaidd y tyfu: mae'r militaraidd a'r eglwysig yn uno mewn trawsenwi (*metonymy*) cyfansawdd sy'n dynodi llwyddiant cenedlaethol.

Mae'r adran olaf, sy'n dechrau â chynghanedd sain, yn cloi â'r gair hwnnw a fu'n atseinio'n gyson yn y gerdd, 'hau' – 'Gwedi darfod y nodau,/ Gwanwyn hir, gwyn hen i'w hau' (89, 90) – ac mae'r cwpled olaf hwn yn tynnu ynghyd amryw o'r haenau perfformiadol testunol ac alldestunol. Yn yr un modd ag y mae'r cwpled cyntaf yn paratoi ar gyfer y gerdd sydd yn addo ymbaratoi ar gyfer buddugoliaeth (ac yn dechrau â gair mwys y gellir ei ddeall fel gorchymyn metadestunol: 'deallwn'), wele'r cwpled olaf yn addo'r hau a gaiff ei berfformio unwaith y bydd y 'nodau' yn digwydd (ac yn cael eu deall). Y 'nodau' hyn wrth gwrs yw'r arwyddion *a addewir* gan y gerdd, ond hefyd yr arwyddion hynny a *berfformir* ganddi. Hynny yw, mae'r gerdd yn broffwydoliaeth a hefyd yn broffwydoliaeth a wireddir – i raddau. Wrth berfformio'r gerdd – wrth lefaru a gwireddu'r gân – gwelir yr arwyddion a chyflawnir y weithred. *Die Sprache spricht,* felly. Trawiadol, serch hynny (ac yn gyson â thraddodiad ehangach y canu proffwydol), yr aredig a'r hau, yn hytrach na'r medi, a gaiff eu perfformio. Dyma addewid nad yw'n cyflawni mwy na'r weithred hunangyfeiriadol honno. *Die Sprache verspricht (sich)*. Nid yn unig y mae hyn yn gyson â thraddodiad ehangach y canu brud: yn wir, mae'n gyson â hanfodion traddodiadau proffwydol yn gyffredin, sy'n dibynnu am eu bodolaeth ar yr amod nad yw

eu haddewidion yn cael eu gwireddu. Unwaith y daw'r Mab Darogan, ni wiw canu amdano bellach (gw. Hunter 2000, Balfour 2002, Jones 2013).

A ninnau wedi treulio cryn amser yn cyfeirio at nodweddion y cywydd cyntaf, hoffwn, cyn awgrymu rhai casgliadau petrus, ddangos yn fyr iawn sut y mae'r egwyddorion strwythurol hyn ar waith mewn ambell gerdd arall gan Ddafydd Gorlech. Mae ei bedwerydd cywydd yn ymrannu'n ddau hanner clir, bob un o ddeugain llinell, ac yn yr hanner cyntaf gwelwn eto adrannau wedi eu dynodi gan ffin y gynghanedd lusg (yn llinellau 1, 11, 21, 27, 31, 33, 39): gwelwn ragair o fath yn y trydydd person – 'Nid êl ei gorff ar elawr/ A gano mwy i gnyw mawr' (1,2) – a ddilynir gan ddwy adran o bum cwpled yr un, ac yna dair adran o dri chwpled yr un. Mae adran ganol y tri chwechawd yn defnyddio cynghanedd lusg (31, 33) neu sain (29) ymhob cwpled. Heb ystyried y cynnwys yn fanwl, hoffwn dynnu sylw at ddau beth sy'n ategu'r toriadau mydryddol.

Mae'r brawddegu yn un: nodwn fod y golygydd yn cydweld bod pob adran yn diweddu ag atalnod llawn. Yr ail beth, sydd efallai'n fwy arwyddocaol, yw sut y defnyddir personau'r ferf. Dechreua'r adran gyntaf ar ôl y 'rhagair' yn y person cyntaf unigol: 'Mi a brydaf o'm brodir' (3); bron y llenwir adran 3 ag unig enghreifftiau'r gerdd o'r cyntaf lluosog: 'O chaem...' (14), 'Alan fyth ni allwn fod,/ I dŷ, ofer yw'n dyfod./ Ni wyddwn...' (17–19); ac yn y blaen, a cheir patrymu amlwg y person cyntaf unigol yn y ddwy adran olaf: 'Mae ym dŷ fry fal y frân' (29) yw llinell gyntaf y naill, sy'n cloi â'r cwpled sy'n dechrau 'Hŷn wyf i nag Elïas' (33), ac mae'r llall yn dechrau â 'Mab diddawn y'm bedyddir' (35) cyn cloi â'r llinellau 'Aros, er nas dangoswyf,/ Gwers yr âb a'i gwrs yr wyf' (39, 40). Er nad yw'n berffaith, mae'r cymesuredd strwythurol yn sicr yn drawiadol, a hynny'n dibynnu ar yr un egwyddorion a welwyd yng nghywydd 1.

Mae pumed cywydd y corpws fel petai'n gwneud yr un math o beth, ac yntau hefyd wedi ei drefnu yn ôl yr egwyddor hon o ddynodi rhannau gan y gynghanedd lusg a weithiau'r sain. Rhaid cyfaddef nad yw'r egwyddorion mor amlwg yn yr achos hwn. Dyma fel y mae'r gerdd yn dechrau:

Y brud hen, wyt yn bratáu
Y byd, ni thâl **d**'wybodau!
Dywedwydol nid **ydwyd**,
Distaw yn addaw yn nwyd. Sain
Disgrïwr llu, **dysg** rhag llaw,
Diau mynych dymunaw;
Trioedd mad nid coeladwy Llusg
Taliesin na Myrddin mwy. Sain
Dyfal hedd o daw fal hyn,
Difoes mae'r beirdd yn d'ofyn.

Mae a ddwg cwyn maddau cad,
Mae dewin ym a'i dywad?
Llais main at riain o'r tŵr, Sain
Lleian, medd y darllëwr.
Dafydd **aeth** o Lan Dyfi
Diwedd ei oes i'm dydd i,
Proffwyd pêr, hen aderyn, Llusg
**Pregethawdd**, ni **bu** hawdd hyn Sain

Mae'r egwyddorion blaenorol yn ein harwain i geisio rhannu'r darn hwn o'r gerdd ar ôl y cwpled â'r gynghanedd lusg – hynny yw, ar ôl y llinell 'Taliesin na Myrddin mwy' (8) – ac yn wir mae cyfiawnhad dros wneud hyn: mae'r holl ferfau yn llinellau 1-8 yn y presennol ('wyt', 'ydwyd', 'dysg'). Ar y llaw arall, wrth gwrs, mae'r presennol yn parhau ar ôl y toriad hwn: 'daw', 'mae', '[d]wg', 'dywad', 'medd', cyn troi (ar ôl y cwpled â'r gynghanedd sain) i'r gorffennol: 'aeth', 'pregethawdd', 'bu'. Nid yw amser y ferf yn torri'r ddadl, felly, ond mater gwahanol yw'r person: sylwer bod yr holl ferfau ar ddechrau'r gerdd (cyn y 'toriad' yn dilyn y gynghanedd lusg) yn yr ail berson unigol. Y tro hwn, mae'r gynghanedd sain yn llinell 4 i'w gweld yn dynodi'r newid o'r mynegol ('wyt', 'ydwyd') i'r gorchmynnol ('dysg').

Yn y gerdd ar ei hyd, gwelir cynghanedd lusg yn llinellau 7, 17, 37, 55, 57, 59, a chynghanedd sain yn llinellau 4, 8, 18, 30, 47, 48, 56, 58, 63. Os dynodir adrannau gan y gynghanedd lusg, ceir strwythur o 4, 5, 10, 11, 3, sef (a deall bod y rhan gyntaf yn ffurfio uned gymhleth) 9, 10, 11 a thri chwpled i gloi.

Mae'r ail adran yn dechrau â phwyslais cryf ar y person cyntaf: cawn yma'r unig ragenw cysylltiol yn y gerdd, a thry'r amser yn ôl i'r presennol: 'Minnau heddiw mewn heddwch,/ 'Manaw draw mae un yn drwch' (19, 20). Ar ôl y gynghanedd sain yn llinell 30, symudir i isadran a nodweddir gan y rhediad hiraf yn y gerdd o'r cymeriad geiriol, sef chwe llinell yn 'A [...]'. Cloir yr adran hon drwy atseinio amser diwedd y gyntaf, â chwpled sy'n dechrau yn y gorffennol amhersonol: 'Dysgu hen cymen y'i caid' (37).

Mae'r drydedd adran yn defnyddio'r unig ferfau sydd yn y person cyntaf unigol: ceir 'Darlleais' (39) ar ddechrau'r adran, ac mae 'Edrych yr wyf' (49) yn digwydd ar ôl cwpled unigryw o gynghanedd sain. Pwysleisir y berfau hyn, felly, drwy eu gosod ar ddechrau'r adran a'r isadran: hwy yw'r amserau llywodraethol ac maent yn dilyn llinellau sydd yn nodweddiadol yn y gerdd oherwydd natur eu cynghanedd. Ceir yn yr adrannau hyn batrwm cymesur o'r presennol amhersonol – mae '[g]yrrir' yn nhrydedd linell yr isadran gyntaf, a '[g]edir' yn nhrydedd linell yr ail; yn yr un modd, mae '[c]wynir' a '[c]ymhellir' ar eu diwedd – ac, yn bur drawiadol, wele'r adran hon yn gorffen â thri chwpled sydd bob un yn

cynnwys llinell o gynghanedd lusg, a dau ohonynt hefyd yn cynnwys cynghanedd sain. Mae *coda*'r gerdd yn dechrau drwy newid i reolaeth y gorffennol amhersonol: 'Daroganwyd drwy gyni' (61).

Yn olaf hoffwn droi at gerdd sydd ychydig yn wahanol. Mae cerdd rhif 6, y rhoddir iddo'r teitl 'Ymddiddan rhwng y bardd a'r Wyddfa', yn un o ddwy gerdd a nodweddir gan ganran uchel iawn o'r gynghanedd sain (42% yn achos y gerdd hon) a chanran isel iawn o'r llusg (1%). A hithau'n dangos cyfansoddiad cynganeddol sydd bron yn gytbwys rhwng y draws a'r groes ar y naill law (57%) a'r sain a'r llusg ar y llall (43%), nid oes fawr o bwynt chwilio yn hon am yr egwyddor ymrannu a brofai mor ddefnyddiol yn y cerddi blaenorol. Eto, mae'r hyn sydd yn digwydd yma, os rhywbeth, yn fwy diddorol.

Mae'r cynganeddion wedi eu gwasgaru'n weddol gytbwys drwy'r gerdd, ond fe'i nodweddir gan y ffaith mai'r hyn sydd yn *anarferol* – ac felly'n nodedig – yw'r *cwpled nad yw'n dechrau â chynghanedd sain*. Digwydd hyn ddeuddeg o weithiau, yn llinellau 7, 9, 21, 41, 57, 65, 67, 71, 73, 79, 83, 85, a rhaid gofyn a yw'r lleoli yn nodwedd strwythurol benodol, ynteu'n ddamweiniol. Archwiliwn, felly, y strwythur a welir os torrir y gerdd yn rhannau yn ôl lleoliad y cwpledi 'eithriadol' hyn: hynny yw, rhagdybir bod cwpled 'anarferol' (neu bâr o gwpledi tebyg) yn dynodi dechrau adran. Ceir felly adeiledd rhyfeddol o gymesur o 10, 10, 8; 4, 3; 4, 3; 3 (a'r adran gyntaf yn gyfuniad o 3+7).

Mae'r gerdd yn dechrau â'r bardd yn cyfarch y mynydd. Yn syth ar ôl yr adran agoriadol o chwe llinell, a'r unig ferf ynddi yn y presennol mynegol – 'Hen addurn wyd, dëyrn ar dir' (3) – newidir i'r gorffennol mynegol – 'Gwisgodd erioed gwisg o'r iâ/ Yn glaerwen dan gŵl eira./ Hon o 'deiliad hen dalaith/ A luniodd Duw, gwiw yw'r gwaith!' (7–10) – cyn i'r gerdd droi yn ôl i'r presennol am weddill yr adran. Gwelwn yma nodwedd sydd erbyn hyn yn gyfarwydd inni: wrth newid o'r presennol i'r gorffennol, mae dau gwpled y gorffennol yn rhai anarferol neu afreolaidd, a hwythau'n dechrau heb gynghanedd sain – 'Gwisgodd erioed gwisg o'r iâ/ [...] Hon o 'deiliad hen dalaith'. Mae'r naid mewn amser felly'n cyd-fynd â naid mewn rhythm.

Yn llinell 21 mae'r cyfarchiad – yr *apostrophe* – yn peidio, a'r llais yn newid yn ddarogan pur. Yma, mae cynghanedd y cwpled agoriadol yn hollol gytseiniol: 'diau o'r trwm y daw'r tro/ Dialedd ar a'i dylo' (21, 22). Mae'r adran hon yn parhau am ddeg llinell, gan ddarogan yr 'arth' (27) a ddaw 'yn y Nordd' (26), ac sydd i'w ddifa gan '[dd]ialedd Duw' (29). Yna, mae triawd o gynghanedd sain yn culhau'r ffocws i 'Fôn' a'r 'llynges goch':

| | |
|---|---|
| Â'i fin, gerwin yw'r gurfa, | Sain |
| I Fôn y daw blinaw bla; | Sain |
| Llynges goch oer droch ar dro, | Sain |
| Byr alaeth, a bair wylo. | Croes |

(31–4)

Mae hyn oll yn digwydd mewn un adran o'r broffwydoliaeth, a'r adran honno'n cyrraedd uchafbwynt yn argoel marwolaeth y forwyn dan law y 'P' Sibylaidd:

| | |
|---|---|
| Y P a ddaw draw i'r drin, | Sain |
| A'i dorfoedd a fydd durfin. | Traws |
| Ei fryd a fydd, cynnydd cwyn, | Sain |
| Rhoi i farw rhyw forwyn. | Croes |

(37–40)

Cyhoeddir cyfnod nesaf y gweithredu yn llinell 41, â phwyslais rhythmig y gynghanedd groes ar ddechrau'r cwpled (h.y., cwpled anarferol) yn pwysleisio'r unig gysylltair amser sydd yn y gerdd: '*Yn ôl hyn*, anial hanes,/ Y wadd a'i lladd er nad lles' (41–2).

Lleolir yr adran hon yn ddaearyddol 'uwch Conwy' (48) ac yn '[y]r Yri' (50) – hynny yw, mae eto yn y *Nordd*, ond wedi symud o *Fôn* yr adran flaenorol. Mae'r adran yn adeiladu at uchafbwynt amlwg – 'Hon a ddaw â'i braw gerbron/ A'i sias i ladd y Saeson' (55, 56) – a dyma symud i'r adran nesaf â'r cwpled anarferol sy'n dechrau â'r llinell 'Tarw a diria, aur darian' (57). Gwelwn yma'r ffocws ddaearyddol yn newid drachefn. Erbyn hyn yr ydys ym '[M]ynwy' (58), y 'Deau dir' (59) a '[M]ochno' (61). Mae pethau'n cyflymu tua'r diweddglo, a'r gerdd yn rhagweld y frwydr olaf a fydd yn trechu'r gelyn.

Mae adran olaf y broffwydoliaeth yn dathlu dychweliad y Cymry i'w 'tiroedd naturiawl' (76) a '[Ph]rydain Fawr' yn ffynnu (77). Mae'r adran hon yn dechrau'n debyg i'r adran flaenorol, â dau gwpled heb gynghanedd sain, ac mae'r gyfres o gysyllteiriau ar ddechrau cwpledi – 'A hyn [...]// A rhannu [...]// A rhoi [...]// A Brytain Fawr [...]' (71, 73, 75, 77) – yn ategu'r teimlad bod yma adeiladu anorfod tuag at uchafbwynt yr adran a *dénouement* y proffwydo: 'A rhoi Cymry, mor hy hawl,/ Yn eu tiroedd naturiawl,/ A Brytain Fawr, gwawr a gân',/ O'u hynt twyllir hwynt allan' (75–9).

Yn awr mae *coda* o fath yn dechrau: a'r brwydro drosodd, a threfn gyfiawn wedi dychwelyd, mae'r mab darogan – yn ôl patrwm 'Proffwydoliaeth y Chwe Brenin i ddilyn y Brenin John' – yn teithio i Gaersalem a Chwlen. Mae'r gyntaf o'r ddwy adran fer olaf yn dechrau, yn briodol ac yn gyson, â chwpled sy'n dechrau â chynghanedd draws –

'Owain a dynn i'r un daith/ I Gaersalem gwrs eilwaith' (79–80) – a chwpled anarferol hefyd sy'n cyflwyno ail gyrchfan y pererin, lle cleddir yr arwr – 'I Gwlen drwy fawr gilwg/ Oddi arnyn' mab y dyn a'i dwg' (84–5). Mae'r unig enghraifft yn y gerdd o'r gynghanedd lusg yn pwysleisio'r 'groes', drwy gysylltu'r gair ag 'oeswr': 'Hon yw'r Groes le bu'r Oeswr[,] / A'i gred yw gweithred y gŵr.' (83-4). Sylwir, felly, fod yn y gerdd hon fwy o hyder proffwydol nag a welwyd yn y lleill, a bod yr alegori Gristolegol gyffredin yn fwy echblyg.

* * *

Gwelir uchod enghreifftiau o'r modd y mabwysiedir gan y beirdd canoloesol agweddau chwareus at eu crefft. Un nodwedd a ddefnyddir mewn modd ymwybodol greadigol yw'r llenddull: gwelir yma, fel yn y traddodiad ehangach, frud yn cymysgu â gofyn, mawl, marwnad, canu serch ac ati. Ymhellach, cyfyd amwysedd o'r elfennau mwyaf sylfaenol: dryllir arwynebedd y gerdd wrth i elfennau megis y rhagenw a'r person – ac amser ei hun – droi'n drosiad, ac wele'r gynghanedd ei hun yn nodwedd i'w throi gan y bardd creadigol at ddibenion strwythurol-semiotig.

Yn achos proffwydoliaeth, efallai nad syndod ydyw mai un o'r elfennau a ddefnyddir amlycaf mewn modd trosiadol – yn eironig, hynny yw, a mabwysiadu term de Man – yw *amser*. Nid yw berfau bellach yn arwyddion cronolegol syml, ond cânt eu troi at ddibenion llenyddol eraill, fel sy'n wir yn y traddodiad ehangach. Mae'r byd a ddatguddir gan y gerdd, wrth gwrs, yn bodoli *yn y gwaith*, mewn modd anostensif, a'r nodweddion llenyddol hyn sy'n gyfrifol am oroesiad llawysgrifol daroganau nas gwireddwyd ac na fedrid eu gwireddu (cymh. Jones 2013, ac yn enw. Pennod 4).

Yng ngherddi Dafydd Gorlech gwelir dwy agwedd at y defnydd o'r gynghanedd ac o leiaf ddwy agwedd ar y potensial sydd i lwyddiant y proffwydoliaethau. Anodd dweud a oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y rhain, ac anos gwybod fel y byddai'r gynulleidfa yn ymateb iddynt, neu fel y caent eu cyflwyno mewn gweithred berfformiadol. Am y rhesymau hyn ac am eraill, gellid herio nifer o'r dehongliadau uchod: mae penderfynu ymhle mae cerdd yn 'ymrannu' yn gallu dibynnu ar chwiw a barn bersonol. Eto, ar y cyfan, fel y gwelwyd, mae yma newidiadau diamwys mewn ffocws, o'r cymeriad ar wyneb y testun i'r cynnwys neu'r iaith, o ddaearyddiaeth i amser, modd neu berson y ferf.

Fel mae'n digwydd, hefyd – a dyma bwynt tra phwysig – mae amrywiadau'r llawysgrifau yn tueddu i gadarnhau'r awgrymiadau hyn. Bu'r erthygl hon yn trafod y testunau golygedig, ond rwyf hefyd wedi archwilio'r amrywiadau llawysgrifol. Lle cafwyd amrywiad geiriol, ni

welais yr un a newidiai'r gynghanedd gan effeithio ar ganlyniadau'r astudiaeth hon. Mwyaf trawiadol yw'r newidiadau i drefn llinellau. Efallai y daw cyfle i gyflwyno'r dystiolaeth hon yn llawn maes o law; nid oes yma le i wneud mwy na datgan bod yr amrywiadau'n ategu'r damcaniaethau a drafodir: erys yr adrannu hyd yn oed wrth amrywio trefn llinellau. Os yw'n wir bod y nodweddion hyn yn cael eu cynnal wrth i'r cerddi gael eu trosglwyddo (a hynny weithiau ar lafar), ategir o bersbectif newydd gasgliad Peredur I. Lynch (2003, 141) yn ei astudiaeth dreiddgar o gynghanedd Dafydd ap Gwilym fod 'anawsterau lu yn wynebu'r sawl a fyn ganfod llais awdurol y tu hwnt i'r llawysgrifau cynharaf a thraddodiad hylifol y datgeiniad.'

Ni thrafodwyd uchod ond pedair cerdd, a dim ond yn y pedair hyn o blith y saith y canfuwyd nodweddion perthnasol: dyma godi cwestiynau pellach nad oes gennyf atebion iddynt.

Crynhoir y casgliadau isod.

1. Cywydd Brud
• Defnyddir y gynghanedd lusg i ddynodi terfyn adran.
• Defnyddir y gynghanedd sain i ddynodi isadrannau.
2. I ofyn march gan Rosier Fychan
• Ansicr. Mae efallai rywfaint o arwyddocâd i gwpledi nad oes ynddynt gynghanedd gytsain.
3. Cywydd Brud
• Ansicr. Efallai y dilynir yr egwyddorion a welir yng ngherdd 1, ond yn anghyson.
4. Cywydd Brud
• Cysondeb clir, fel yng ngherdd 1.
5. Cywydd Brud
• Cysondeb echblyg, fel yng ngherdd 1.
6. Ymddiddan rhwng y bardd a'r Wyddfa
• Dechreuir adrannau gan gwpledi a nodweddir gan gynghanedd gytsain yn y llinell gyntaf.
7. Cywydd y Gigfran
• Ansicr.

*Prifysgol Bangor*

## Llyfryddiaeth

**Balfour**, I., 2002, *The Rhetoric of Romantic Poetry*, Stanford.
**Barthes**, R., 1977 [1967], 'The Death of the Author', yn *Image-Music-Text*, London.
**Blanchot**, M., 1955, *L'Espace littéraire* [cyf. *The Space of Literature*], Paris.
**Davies**, J. G., 1911, *Welsh Metrics*, London.
**De Man**, P., 1979, *Allegories of Reading: Figural Language in Rousseau, Nietzsche, Rilke, and Proust*, New Haven, London.
**Derrida**, J., 1987, *De l'esprit: Heidegger et la question*, Paris.
**Foucault**, M., 1969, 'Qu'est-ce qu'un auteur?' [cyf. 'What is an Author?], *Bulletin de la société française de philosophie*, 75-104.
**Fulton**, H., 1996, *Selections from the Dafydd ap Gwilym Apocrypha*, Llandysul.
**Heidegger**, M., 1959, 'Die Sprache', yn *Unterwegs zur Sprache*, Pfullingen.
**Hunter**, J., 1995, 'Testun Dadl', *Tu Chwith* 3, 81-5.
**Hunter**, J., 2000, *Soffestri'r Saeson: Hanesyddiaeth a Hunaniaeth yn Oes y Tuduriaid*, Caerdydd.
**Hunter**, J., 2001, 'A New Edition of the Poets of the Nobility', *Cambrian Medieval Celtic Studies* 41, 55-64.
**Jones**, A. Ll., 2013, *Darogan: Prophecy, Lament and Absent Heroes in Medieval Welsh Literature*, Cardiff.
**Jones**, R. M., 1993, 'Cerdd Fwya'r Iaith: Cerdd Bradwr', *Barddas* 194-5.
**Lynch**, P. I., 2003, 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym: Tystiolaeth y Llawysgrifau Cynnar' yn Iestyn Daniel et al., gol., *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol*, Caerdydd, 109-47.
**Rheinallt**, E., gol., 1997, *Gwaith Dafydd Gorlech*, Aberystwyth.